## Dafydd Ddu Feddyg a hwyliodd gyda Capten Cook

# DIPYN O FARDD – A LOT O DDERYN

TYBED a yw darllenwyr *Y Casglwr* yn gwybod bod Wales yn warchodfa Indiaid. Na, nid Cymru ond Wales ar Benrhyn Tywysog Cymru, Alaska. Y mae'n bentref efo 130 o bobl a saif yn y lle mwyaf gorllewinol ar Gyfandir Amerig (tua 168° Gorll.) heb fod ymhell o'r U.S.S.R. Yn agos ceir safle 'tintown' lle'r oedd gwaith alcam yn y ganrif ddiwethaf.

Enwyd y Penrhyn gan Gapten James Cook ar 8fed Awst, 1778 tra'n hwylio efo'i ddwy long trwy Fôr Bering tua ia y gogledd mewn ymgais i ddarganfod llwybr gogleddol i longau hwylio rhwng y Môr Tawel a'r Iwerydd. Ymgais anobeithiol, wrth gwrs, yn y cyfnod er pob cymorth a chyfeillgarwch a gafwyd gan Rwsiaid y parthau hynny. (Dwy freuddwyd ffôl arall y cyfnod oedd mynd ar ôl Indiaid Madog ac ar ôl cyfandir mawr yn ne'r Môr Tawel).

Cook ei hun oedd Capten y 'Resolution' (462 tunnell) a Chapten y 'Discovery' (300 tunnell) oedd Charles Clerke, morwr gwych arall, ond ysywaeth yr oeddynt i farw o fewn y flwyddyn nesaf – Cook mewn sgarmes efo brodorion Hawaii yn Ionawr, a Clerke o'r diciâu wrth Kamchatka yn Awst, 1779.

Bu dau swyddog arall farw yn fuan ar ôl cyrraedd Prydain – effaith caledi'r fordaith.

* * *

AR Y llongau hyn yr oedd dau forwr ifanc a oedd i fod yn enwog yn nes ymlaen am eu morwriaeth arbennig a'u disgyblaeth lem, sef William Bligh, 25 oed yn llongfeistr, a George Vancouver, 20 oed yn A.B.

Ond o ddiddordeb arbennig i ni oedd y ddau Gymro a oedd yn llawfeddygon cynorthwyol (surgeon's mates) ar y 'Resolution' sef Dafydd Samwell, mab Ficer Nantglyn, Dinbych a Robert Davies o'r Wyddgrug. Ar ôl marwolaeth y Sgotyn ifanc galluog William Anderson, prif lawfeddyg y 'Resolution' yn Awst 1778 yng Nghulfor Bering fe ddyrchafwyd Dafydd i fod yn brif lawfeddyg y 'Discovery'.

Yr oedd Cook yn ei barchu, yn amlwg, ac yn sicr yr oedd Dafydd yn meddwl y byd ohono fo, fel y dengys ei adroddiad enwog am farwolaeth Cook, a'i ymateb pan ysgrifennwyd molawd i Gapten Bligh gan gynnwys:-

*'Such as Cook was, thereafter Bligh may be'.*

### WYNNE LEWIS a'r Cymro rhyfeddol

Atebodd Dafydd fel *'A shipmate of both captains'* —

*'To you, Cook's firm companions on the wave*
*Who yet survive, and knew him wise and brave*

*To you I now appeal, I hear you sigh,*
*To think that Cook should be compared with Bligh'.*

Ond er mor lwyddiannus oedd Cook a'i feddygon i gadw'r clefri poeth (scurvy) draw, aneffeithiol oeddynt yn erbyn y diciâu a oedd i ladd cymaint o ieuenctid am gyfnod hir eto.

Dipyn o gymeriad oedd yr hen Ddafydd. Dengys ei ysgrifau iddo fod yn gryn anthropolegwr, cymdeithasegwr a daearyddwr ond nid academaidd yn hollol oedd ei ddiddordeb ym merched ifainc y Môr Tawel, er iddo resynu bod Ewropeaid wedi dod â'r clefyd gwenerol i'r ynysoedd.

Wrth imi ymweld â Hawaii Americanaidd yn ystod y rhyfel pan oeddwn yn y Llynges, a Pholynesia Ffrengig yn ddiweddarach, tybed a welais rai o or-or-wyrion neu wyresau yr hen Gymry a ymwelodd â'r ynysoedd yn nyddiau eu Hannibyniaeth!

Er hynny ni ddylwn dderbyn o ddifrif ei bennill ar Tahiti yn ei gerdd 'Padouca Hunt':

*Where led by love's enchanting smile*
*Among the tawney maids*
*We peopled more than half the Isle*
*With Welsh and Saxon blades.*

* * *

FEL FI, yr oedd Dafydd yn mynd âi lyfrau efo fo i'r môr yn cynnwys barddoniaeth Lladin, Saesneg a Chymraeg, ac yn wir fe ddisgynnodd yr Awen fwy nag unwaith ar y 'Resolution' i greu cerdd, er enghraifft, ar gyfer Dydd Gŵyl Ddewi ym Môr y De, ac wrth fynd heibio Penrhyn Gobaith Da ar y ffordd allan fe luniodd englyn clodwiw;

*Rhwygo, mordwyo Môr dehau — rhuadwy*
*Yr ydym ni'n dechrau*
*A'r Hynt lle mae'r Gwynt yn gwau*
*A Dŵr ei uchelderau.*

Dipyn o gamp yn wir oedd cyfansoddi o gwbl ar long mor fach a symudol yn llawn o nwyddau ac anifeiliaid ar gyfer y criw a'r ynyswyr, fel rhyw Arch Noa.

Ar ôl dychwelyd o fordaith olaf Capten Cook, a rhwng cyfnodau eraill ar y môr yr oedd Dafydd Samwell yn byw yn Llundain ac yn cefnogi'r diwylliant Cymraeg. Yr oedd yn ymddiddori ym mywyd Goronwy Owen, ac yn helpu casglu cerddi Huw Morus a Dafydd ap Gwilym – ac yn wir fe fuasai'r ddau Ddafydd yn mwynhau cwmni ei gilydd.

Ysgrifennodd ambell gân yn Saesneg yn ysbeidiol fel yr un yn y 'Gentleman's Magazine' yn sôn am anrheg Nadolig a gafodd yn 1794 tra ar H.M.S. 'Unicorn' ar ddyfroedd rhewllyd ger Norwy – sef gwynt i'w gyrru adref. Ysgrifennodd hefyd 'The Negro Boy' i ddatgan ei atgasedd at gaethwasiaeth.

Yr oedd yn wyllt ei dymer weithiau a gyda'i gynorthwywr Iolo Morganwg cynigiodd 'duel' unwaith i Ned Môn (Edward Jones) a wrthododd y fraint, ac i feirniad ar ôl Eisteddfod Corwen yn 1789 am farnu yn erbyn cerdd ei hen ffrind Twm o'r Nant, ond yn y diwedd yn lle ymladd drosto fe roddodd i "Brif Fardd Cymru" bin ysgrifennu arian fel gwobr gysur.

Rhamantydd yn wir ydoedd wrth gefnogi Iolo Morganwg i greu seremoni 'hynafol dderwyddol' ar Primrose Hill amser yr heuldro a'r cyhydnos, ond fe allem dybio nad hawdd bob tro oedd i Ddafydd weinio'r cledd mewn heddwch!

* * *

YR OEDD yn bleidiol hefyd i anfon rhywun i chwilio am yr Indiaid Cymreig yn Amerig ac fe ysgrifennodd gerdd ddoniol a dychanol 'Padouca Hunt' i ddisgrifio cyfarfod ymhlith y Gwyneddigion i drafod y mater.

Ond ers 1770 yr oedd wedi bod o ddifrif yn cefnogi cyfarfodydd y Gwyneddigion egniol yn Llundain ac yn mwynhau cwmni ei gyd-ddadleuwyr, cantorion, beirdd a llymeitwyr yn y gymdeithas, ac yn cynllunio i godi'r henwlad o'i thrwmgwsg.

Digon radicalaidd oedd Cymdeithas y Gwyneddigion, (a'i chwaer gymdeithas y Caradogion) yn enwedig cyn i'r rhyfel hir yn erbyn Ffrainc ddechrau yn 1793.

Wrth gwrs fel swyddog llyngesol cefnogodd Dafydd y rhyfel ac yn wir yr oedd ar dân i ddychwelyd i'r môr ac yn awyddus i ennill 'prize money' er mwyn helpu achosion Cymraeg.

Er hynny yr oedd yn dal yn gyfeillgar efo radicalwyr fel Owain Myfyr (er ei gyfoeth), Jac Glan Gors a Iolo Morganwg a beirdd rhyddfrydol fel ei ffrind Anna Seward, y Saesnes o Lichfield (a ysgrifennodd alarnad ar ôl Cook, ac a oedd yn aelod o Orsedd y Beirdd yn 1793). Yn wir tra ym Mharis arhosodd efo Helen Maria Williams, cefnogwr brwd y Chwyldro er i Robespierre ei charcharu.

Pryderai cyfeillion Dafydd yn y Gwyneddigion pan oedd i ffwrdd o'i gartref yn Fetter Lane ar ôl 1793, fel y dengys yr englyn a anfonwyd iddo ar H.M.S. Marlborough:

*Ow Dafydd! Dafydd dydi — mae terfysg*
*Mae twrf y môr heli,*
*Mae'r Ffrangcod yn cyfodi*
*Y lluoedd diawl i'th ladd di.*

Un arall yn cwyno na allai Samwell fod yn Eisteddfod Caerwys yn 1798:

*Pawb sydd oherwydd hiraeth — am Samwell*
*Mi siomodd ni o'sowaeth*
*Meddygwr, awdwr odiaeth*
*Heddyw yn Ffrainc hoywddyn ffraeth.*

(Erbyn heddiw fe fyddai'n rhaid ailwampio'r llinell olaf!)

* * *

IE, ERBYN Mawrth 1798 yr oedd yn Ffrainc fel meddyg i garcharorion rhyfel Prydeinig yn Versailles. Gallaf ei ddychmygu'n troedio'n dalog ac yn hyderus ar strydoedd Paris efo'r 'Cockade cenedlaethol' gorfodol ac yn datgan wedyn i'w ffrindiau gartref bod Paris yn wych ond dim cystal â'i hoff Gaerludd.

Dychwelodd adref ym mis Medi ond dim ond am amser byr oherwydd bu farw'n fuan wedyn yn 47 oed a dywedir i laudanum a'r ddiod gyflymu'r dydd. Fe'i claddwyd ym mynwent St. Dunstans, Stryd y Fflyd.

Nid anghofiodd Twm yn ei ewyllys, a hynny'n nodweddiadol o ŵr oedd yn deyrngar i Gymru ac i'w ffrindiau.

Wrth gwrs yr oedd gerwindeb yn rhan o'i gymeriad fel swyddog llyngesol y ddeunawfed ganrif. Yr oedd wedi dysgu ei grefft yn ysbytai llyngesol creulon, gwaedlyd a di-gyffur gwrth-heintiol y cyfnod, ond er hynny yr oedd tystiolaeth iddo fod yn feddyg esgyrn a chyffredin effeithiol ar y môr

* * *

GELLIR honni ei fod wedi ymwneud â phethau mawr – dadeni dysg Cymraeg a radicaliaeth gynnar y ddeunawfed ganrif yng Nghymru, a'r Chwyldro yn Ffrainc. Nid oedd ar ddwy fordaith gyntaf Cook yn y Môr Tawel pryd yr archwiliwyd ac yr arolygwyd glannau dwyreiniol Awstralia a Seland Newydd ac ymylon Ia y De.